**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

# Y DIWEDDARAF AM Y GWASANAETHAU POST YNG NGHYMRU

## Diben

Hysbysu'r Pwyllgor am weithgareddau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'r gwasanaethau post a gwahodd sylwadau ynghylch y dyfodol.

## Cefndir

Nid yw polisi ar gyfer Swyddfa'r Post yn fater sydd wedi ei ddatganoli i'r Cynulliad. Serch hynny, mae swyddfeydd post a gwasanaethau post yn hanfodol bwysig i fywyd cymunedol, cymdeithasol ac economaidd Cymru. Felly, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau ac yn ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i sicrhau na fydd Cymru dan anfantais. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r materion sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd ac yn ymateb i gwestiynau sy'n deillio o ddatganiad y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau i'r Cynulliad ar 18 Mehefin am y Gwasanaethau Post.

## Moderneiddio'r Rhwydwaith

### Ailwampio'r Rhwydwaith Trefol

Ar 3 Ionawr 2002, cyhoeddodd yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI) gynllun tair blynedd i ailwampio'r rhwydwaith o swyddfeydd post. Dyfeisiwyd y cynllun i sicrhau bod yr is-swyddfeydd post yn cwrdd â disgwyliadau cyfnewidiol eu cwsmeriaid, eu bod yn y llefydd iawn ar gyfer y cymunedau a wasanaethir ganddynt a'u bod yn cynnig digon o fanteision i is-bostfeistri a Swyddfa'r Post Cyf. Yn amodol ar ymgynghori â'r cyhoedd, bydd swyddfeydd post nad ydynt yn gwneud elw, a saif mewn mannau trefol anghyfleus yn cael cyfle i gau neu uno. Mae'r Llywodraeth wedi cytuno i ariannunegotiated pecyn iawndal ar gyfer is-bostfeistri sy'n penderfynu cau eu busnesau. Bydd adnoddau yn cael eu darparu i helpu is-bostfeistri wella eu safleoedd neu adleoli'r busnes. Gweinyddir y cynllun gan Swyddfa'r Post Cyf., a disgwylir y bydd tua £180 miliwn o iawndal ar gael ac y bydd tua £30 miliwn yn cael ei ddefnyddio i helpu i ddatblygu a gwella'r swyddfeydd post sy'n weddill. Mae'r cynllun yn aros i gael ei gymeradwyonotification gan yr UE ac i'r gweithdrefnau Seneddol gael eu cwblhau.

Ar 10 Ebrill, cysylltodd Swyddfa'r Post Cyf. â'r holl is-bostfeistri i ddweud wrthynt a oedd eu swyddfa bost o fewn cwmpas y cynigion ailstrwythuro ai peidio ac yn rhoi gwybodaeth bellach am y cynllun ailwampio. Mae Swyddfa'r Post Cyf. yn disgwyl y gallai hyd at 300 o swyddfeydd

post yng Nghymru, neu dros 20% o'r rhwydwaith yng Nghymru, gael eu hystyried fel rhan o'r cynigion ailwampio, ond mae'n rhy gynnar eto i fwrw amcan ynghylch nifer yr is-bostfeistri fydd yn awyddus i fanteisio ar yr iawndal. Un o amodau cyllid y Llywodraeth ar gyfer ailwampio'r rhwydwaith trefol yw y bydd o leiaf 95% o boblogaeth drefol yn byw o fewn milltir i swyddfa'r post. Er mai mater masnachol i Swyddfa'r Post Cyf. yw cwtogi ar nifer y swyddfeydd post, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw llygad ar yr effaith a gaiff cau unrhyw swyddfa bost ar y gymuned leol. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ystyried sut y gellir rhoi cymorth effeithiol i swyddfeydd post sydd â gwerth cymdeithasol uchel.

Swyddfeydd Post mewn Ardaloedd Difreintiedig

Mae is-swyddfeydd post mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol difreintiedig yn chwarae rhan bwysig mewn cymunedau clos gan ddarparu gwasanaethau i aelodau bregus o'r gymdeithas. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod mor bwysig yw'r is-swyddfeydd post hyn i gymunedau lleol ac mae'n ystyried sut y gall helpu i'w cadw ledled Cymru. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Consignia, Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-Bostfeistri, Canolfan Gydweithredol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gael gwybodaeth i ddatblygu'r cynigion.

Cynllun Cyfalaf £2 miliwn i Ddechrau Busnes

Mae'r cynllun cymhorthdal cyfalaf i fusnesau newydd yng nghefn gwlad, sy'n cael ei weinyddu gan Swyddfa'r Post Cyf., yn delio â'r broblem o achub swyddfeydd post cefn gwlad rhag cau trwy gyfrannu at y costau cyfalaf o ddechrau busnes, ond gall hyn fod yn rhwystr yn achos mentrau lle mae'r awenau yn nwylo'r gymuned. Mae'r gronfa hon yn ategu'r rheidrwydd swyddogol ar Swyddfa'r Post Cyf. i gynnal y rhwydwaith lleol.

Mae Swyddfa'r Post Cyf. hefyd yn cyflogi pedwar yng Nghymru i roi cyngor ar drosglwyddiadau yng nghefn gwlad gan weithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid lleol i sicrhau dyfodol y gwasanaethau post. Hyd yn hyn, mae'r cynghorwyr wedi bod yn allweddol o ran agor pum swyddfa bost ac mae'n edrych yn debyg y bydd saith arall yn agor cyn hir. Mae Llywodraeth y Cynulliad mewn cysylltiad rheolaidd gyda Consignia am gyflwr y rhwydwaith ac mae cyfarfodydd ar y gweill gyda'r cynghorwyr trosglwyddiadau gwledig yn y dyfodol agos.

Cymhorthdal Rhwydwaith Gwledig

Roedd adroddiad yr Uned Perfformiad ac Arloesi ar *Foderneiddio'r Rhwydwaith o Swyddfeydd Post* yn cydnabod y byddai angen cymorth trosiannol ar swyddfeydd post gwledig i ymdopi â'r newidiadau oedd ynghlwm wrth symud budd-daliadau o lyfrau archeb i Drosglwyddiadau Credyd Awtomatig (ACT). Mae Postcomm wedi rhoi cyngor i'r DTI ar y ffordd orau o roi cymorth ariannol i'r rhwydwaith gwledig. Mae'r DTI ar hyn o bryd yn ystyried y cyngor hwnnw. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydgysylltu gyda'r DTI i wneud yn siwr ei fod yn cymryd i

ystyriaeth bwysigrwydd y swyddfeydd post o ran cynnal bywyd gwledig Cymru.

Ymarferydd Cyffredinol y Llywodraeth

Daeth peilot Swydd Gaerhirfryn o gynllun Ymarferydd Cyffredinol y Llywodraeth (GGP) "Your Guide" i ben ar 1 Mawrth 2002. Dylai'r gwerthusiad terfynol fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd y mis. Mae'r canfyddiadau hyd yma yn awgrymu bod y prosiect wedi bod yn llwyddiannus ond bod y costau cychwyn a chynnal yn uchel. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trafod y gwerthusiad terfynol gyda DTI. Os bydd Gweinidogion DTI yn penderfynu cyflwyno'r prosiect yn genedlaethol bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gofalu bod Cymru'n cael y budd gorau posibl a bydd hefyd yn edrych sut y gall GGP ychwanegu gwerth at y rhaglenni presennol a rhaglenni'r dyfodol.

Gwasanaethau Bancio Cyffredinol

Daeth y syniad o ddarparu Gwasanaethau Bancio Cyffredinol mewn swyddfeydd post o adroddiad yr Uned Perfformiad ac Arloesi ar *Foderneiddio'r Rhwydwaith o Swyddfeydd Post.* Mae'r syniad wedi parhau i ddatblygu ac mae erbyn hyn yn cwmpasu'r amcanion canlynol:

- Moderneiddio'r taliadau lles trwy eu gwneud trwy Drosglwyddiadau Credyd Awtomatig (ACT), gan leihau'r costau gweinyddol a thwyll yn sylweddol.
- Cynyddu cynhwysiant ariannol trwy sicrhau bod pob un sy'n awyddus i wneud hynny yn medru agor cyfrif banc syml, rhwydd i'w ddefnyddio, gyda'i wasanaethau ar gael dros gownteri swyddfa'r post. Amcangyfrifir bod 3.5 miliwn o oedolion yn y DU heb gyfrif banc. Dylai hyn ei gwneud yn fwy hwylus iddynt agor un.
- Bod yn gyfrwng i ddenu busnes amgenach i rwydwaith Swyddfa'r Post Cyf. gan helpu i ofalu ei fod yn parhau'n ddilys ar ôl symud y budd-daliadau i ACT.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro datblygiad y cynigion hyn a bydd yn dylanwadu ar DTI a Consignia i wneud yn siwr bod unrhyw fanteision o'r rhaglen yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial yng Nghymru.

**Cystadleuaeth**

Ar 29 Mai 2002 cyhoeddodd Postcomm yr amserlen newydd ar gyfer cyflwyno cystadleuaeth i farchnad gwasanaethau post y DU. Mae'r amserlen fel a ganlyn:

- **Cam 1, o 1 Ionawr 2003 - 31 Mawrth 2005:** post swmpus, dros 4000 o eitemau (ar ffurf debyg ac o'r un safle), tua 30% o werth marchnad lythyrau y DU, ynghyd â gwasanaethau cyfnerthu a gwasanaethau unigryw.
- **Cam 2, o 1 Ebrill 2005 - 31 Mawrth 2007:** bydd y trothwy ar gyfer post swmpus yn cael ei addasu fel bod 60% o werth y farchnad yn agored.

- **Cam 3, o 1 Ebrill 2007:** pob cyfyngiad ar yr hawl i'r farchnad yn cael eu diddymu.

Mae penderfyniad Postcomm yn adeiladu ar agwedd yr Undeb Ewropeaidd at lacio'r farchnad. Mae'r penderfyniad i ohirio cystadleuaeth yn dangos bod Postcomm wedi cymryd i ystyriaeth y safbwyntiau a fynegwyd adeg yr ymgynghori a'i fod yn barod i ymyrryd i gadw'r gwasanaeth cyffredinol. Mynegodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bryderon y Cynulliad Cenedlaethol am y gwasanaeth cyffredinol a'r rhestr brisiau i Postcomm yn dilyn dadl 12 Mawrth ar y gwasanaethau post.

Cynyddu Prisiau

Rhaid i Consignia gael caniatâd Postcomm i gynyddu pris stampiau dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth. Dylai unrhyw gais am godi'r pris fod yn destun proses ymgynghori arferol Postcomm. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y dadleuon ac yn ymateb fel y bo'r galw.

## Cynllun Adnewyddu'r Cwmni

Colli Swyddi

Y cyhoeddiad diweddar bod 17,000 o swyddi i gael eu colli yn y Post Brenhinol yw ail ran rhagolygon Consignia ym mis Mawrth 2002 y byddai 30,000 o swyddi yn cael eu colli yn y 3 blynedd nesaf. Ni wyddys hyd yn hyn faint o'r 17,000 o swyddi fydd yn cael eu colli yng Nghymru. Cafwyd ar ddeall y bydd Consignia yn ceisio gweithredu'r toriadau trwy ddiswyddiadau gwirfoddol ac adleoli. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu trwy weithio mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Byd Gwaith, Addysgu a Dysgu Cymru ac asiantaethau eraill i helpu pobl sy'n gadael y Post Brenhinol i gael swyddi newydd a chyfleoedd ailhyfforddi cyn gynted ag y bo modd.

Trefniadau Dosbarthu

Mae Consignia yn treialu trefniadau newydd ar gyfer dosbarthu a gweithio shifftiau. Mae Llanelli yn un o'r 14 ardal beilot ledled y DU. Mae'r trefniadau newydd, gan gynnwys colli'r ail bost, yn amodol i'w cymeradwyo gan Postcomm. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd diddordeb byw yng nghanlyniadau'r cynlluniau peilot a bydd yn gofalu bod buddiannau cymunedau a busnesau yn cael eu hybu mewn unrhyw ymarferion ymgynghori a gynhelir gan Postcomm ar y trefniadau dosbarthu newydd.

## Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd unrhyw wariant fydd yn codi o'r materion a drafodwyd yn y papur hwn yn dod o fewn

darpariaeth bresennol y gyllideb neu wariant a gynlluniwyd.

**Themâu trawsbynciol**

Bydd unrhyw drefniadau a wneir ar gyfer cefnogi swyddfeydd post sydd â gwerth cymdeithasol uchel yn cyd-fynd ag agenda bresennol Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Hefyd, dylai'r trefniadau gyfrannu at flaenoriaeth y Cynulliad i fynd i'r afael ag amddifadedd yn yr ardaloedd mwyaf anghenus hynny a glustnodwyd yn *Cynllun i Gymru.*

**Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r datblygiadau a ddisgrifir yn y Papur hwn a rhoi sylwadau ar ddatblygiad y polisi ar wasanaethau post yng Nghymru yn y dyfodol.